

Tasg 3

(Heriol, sbardun 1)

Mae'r gair 'crochris' wedi'i wneud o ddau air: crog + pris. Hynny yw, pris sy'n ddigon i'ch crogi chi. Mae'r 'g' yn 'crog' wedi **caledu** i 'c' (y gwrthwyneb i dreigladd meddal) *Cyfansoddair/cyfansoddeiriau* yw'r enw ar air/geiriau sydd wedi'u gwneud o fwy nag un gair.

Rhannwch y **cyfansoddeiriau** hyn i ddangos y ddau air gwreiddiol a dangoswch ei ystyr drwy ei roi mewn brawddeg fer.

Cyfansoddair	Geiriau gwreiddiol	Brawddeg yn cynnwys y gair
cyfanswm	cyfan + swm	Beth yw cyfanswm y rhifau hyn i gyd?
troednoeth		
gweithdy		
glasfryn		
popty		
llygadrythu		
cefngrwm		
abaty		

Wrth wneud cyfansoddeiriau, mae'r ail air yn aml yn treiglo'n feddal – e.e. llwyd + glas > **llwydlas**.

Gwnewch gyfansoddeiriau gan ddefnyddio'r geiriau hyn ac yna ysgrifennwch **frawddeg fer** yn cynnwys y cyfansoddair:

Geiriau gwreiddiol	Cyfansoddair	Brawddeg yn cynnwys y cyfansoddair:
brown + coch		
bol + tew		
diwedd + clo		
cariad + merch		
coch+ du		
bwyd + tŷ		
haf + dydd		
priod + fab		